



Ein cyf/Our ref MA - L/RE/0066/18

Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

21 Chwefror 2018

Annwyl Simon,

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Cyllid am ei waith craffu ar Fil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) yn ystod Cyfnod 1 o'r broses ddeddfwriaethol. Rwyf wedi nodi ymatebion i'r tri argymhelliad a wnaed yn adroddiad craffu Cyfnod 1 y Pwyllgor Cyllid ar Fil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) isod.

- 1) *Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn llunio strategaeth sy'n amlinellu sut y bydd yn monitro perfformiad ariannol Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn lleihau'r risgiau sydd ynghlwm wrth ddadreoleiddio'r sector*

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae hyfywedd ariannol parhaus landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn hanfodol. Caiff perfformiad ariannol pob landlord cymdeithasol cofrestredig ei fonitro fel rhan o drefn reoleiddio barhaus ac mae'n sail i'r dyfarniadau rheoleiddiol blynyddol a gyhoeddir ar hyfywedd ariannol a threfniadau llywodraethu a gwasanaethau landlordiaid.

Mae risgiau pan fydd Byrddau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn penderfynu ymgymryd â gweithgareddau newydd. Yr hyn sy'n bwysig, fodd bynnag, yw sut mae Byrddau yn adnabod, yn deall, yn ystyried ac yn rheoli'r risgiau hynny. Felly, mae'r modd y caiff risgiau busnes newydd eu hadnabod, eu hasesu a'u rheoli yn rhan annatod o'r Safonau Perfformiad a chaiff hyn ei ystyried wrth wneud dyfarniadau rheoleiddiol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adolygiad o lefelau amlygiad presennol i weithgareddau busnes nad ydynt yn weithgareddau craidd (arallgyfeirio) ac yn nodi ei bwriad i fonitro blaengynlluniau dros gyfnod treigl o bum mlynedd er mwyn llywio'i barn ar lefelau amlygiad cyffredinol y sector, yn ogystal â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig unigol i sicrhau bod y risg yn briodol a rhesymol. Bydd yr adolygiad a'r strategaeth yn cael eu cyhoeddi yn y trosolwg arfaethedig o risgiau'r sector yng Ngwanwyn, 2018.

- 2) *Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddyrannu adnoddau digonol i alluogi'r Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid i gyfathrebu mwy â thenantiaid i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r newidiadau o ganlyniad i'r Bil hwn ac yn eu deall.*
- 3) *Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddyrannu adnoddau digonol i gynhyrchu canllawiau ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn sicrhau dull cyson o weithredu'r drefn newydd.*

Rwy'n derbyn yr argymhellion hyn. Rwyf o'r farn ar hyn o bryd bod adnoddau digonol ar gael am y rhesymau a nodwyd yn yr Arfarniad Effaith Rheoliadol. Fodd bynnag, gallaf sicrhau'r Pwyllgor bod adnoddau yn cael eu hadolygu'n gyson gan swyddogion ac mewn cysylltiad â TPAS Cymru a'r sector Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

Rwy'n mawr obeithio bod y llythyr o gymorth wrth nodi fy ymateb i adroddiad y Pwyllgor. Byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch eu hadroddiadau Cyfnod 1 ac anfonir copi o'r llythyrau at Gadeiryddion y tri Phwyllgor.

Rwy'n edrych ymlaen at barhau i weithio â'r Aelodau wrth i'r Bil fynd ar ei hynt drwy'r Cynulliad.

Yn gywir,



Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration